

Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Gâr Gweithredu o ran y Gymraeg – 2017/18

Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Blynyddol o waith Cyngor Sir Gâr ar gyfer 2017/18. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ail flwyddyn o weithrediad y Safonau Iaith Gymraeg. Mae adroddiad eleni yn dilyn fformat gwahanol i flynyddoedd blaenorol gyda disgrifiadau o weithgareddau wedi'u rhannu fesul dosbarth o Safonau, gan fod y gwaith o gydymffurfio â'r Safonau'n parhau'n gyson a heb fod angen eu hailadrodd.

Yn ystod 2017/18, mae'r Aelod Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r iaith Gymraeg wedi arwain a sicrhau cynnydd pellach o ran gwaith mewnol y Cyngor yn ogystal ag adeiladu ar bartneriaethau gyda chyrff eraill er mwyn hybu'r Gymraeg ar draws Sir Gâr.

Mae Panel Ymgynghorol yr Aelodau ar y Gymraeg wedi parhau i dderbyn diweddariadau cyson o ran y Safonau, ac wedi parhau â'i rôl allweddol wrth gynnig cyngor, monitro cynnydd a galw am dystiolaeth o'r cynnydd hwnnw gan adrannau penodol o fewn y Cyngor.

Mae'r Fforwm Sirol, sy'n cael ei arwain gan y Cyngor ac yn cynnwys cynrychiolaeth o fudiadau hyrwyddo iaith y sir, yn ogystal â chyrff cyhoeddus sydd â swyddogion iaith, hefyd wedi parhau gyda'i rôl o ddatblygu rhaglen o hybu'r Gymraeg yn y sir ac wedi cyfrannu'n helaeth i Lunio Strategaeth Hybu Sir Gâr, yn unol â'r Safon Hybu.

Gwnaed llawer iawn o waith cyfathrebu mewnol i'r Cyngor eto yn ystod 2017-18 gan barhau i drosglwyddo negeseuon i staff wrth fynychu sioeau teithiol ar draws y sir mewn gwahanol adeiladau er mwyn cyfarfod wyneb yn wyneb â staff a thrafod unrhyw faterion oedd yn codi. Manteisiwyd ar y cyfle i hyrwyddo'r clipiau sain, rhestrau geirfa, y fideos a thempledi newydd ynghyd â hyrwyddo'r amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael i ddysgu neu wella sgiliau Cymraeg.

Gwnaed gwaith hyrwyddo gyda Chylch Trefnwyr Digwyddiadau'r Sir i gyfleu pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg wrth drefnu digwyddiadau cymunedol a rhannu gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i weithredu'n ddwyieithog.

Datblygiad pwysig yn ystod y flwyddyn oedd penodi Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu o ran yr Iaith Gymraeg i fod yn gyfrifol am ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu. Lleolir y swyddog yn nhîm Dysgu a Datblygu'r Cyngor ond cedwir cyswllt agos gyda'r tîm polisi, rheolwyr, penaethiaid gwasanaeth a dysgwyr y Cyngor. Mae'r swyddog wedi cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i staff wrth ymchwilio a darparu amrywiaeth o gyrsiau sy'n diwallu anghenion gwahanol ein staff i allu dysgu Cymraeg. Mae'r swyddog wedi dechrau hyfforddi mentoriaid er mwyn cefnogi dysgwyr y Cyngor ac wedi dechrau ar y drefn o gytuno a gosod Cytundebau Dysgu ar gyfer swyddogion newydd. Datblygir Cytundebau Dysgu mewn partneriaeth â rheolwyr llinell, Dysgu a Datblygu ac Adnoddau Dynol ar gyfer aelodau newydd o staff nad ydynt yn cwrdd â lefel ieithyddol swydd pan benodir hwy.

Gwnaed gwaith datblygu yn ystod 2017-18 gydag Arweinwyr Iaith y Cyngor. Am y tro cyntaf, darparwyd yr hyfforddiant yn fewnol dros ddeuddydd dwys. I'r perwyl hwn lluniwyd cwrs newydd yn dilyn cyngor gan gorff allanol. Teimlwyd fod y modd newydd hwn o ddarparu hyfforddiant yn ein galluogi i gyfleu negeseuon mwy perthnasol i staff Cyngor Sir Gâr. Roedd yn gyfle hefyd i hyrwyddo'r holl gymorth sydd bellach ar ein mewnwrwyd i gynorthwyo cydymffurfiaeth â'r Safonau. Yn y modd hwn, hyfforddwyd Arweinwyr Iaith newydd o'r Adran Cymunedau a rhai aelodau o staff o

Wasanaethau Plant yr Adran Addysg. Parhawyd i weithio gyda'r Arweinwyr iaith yn yr isadran Hamdden ac Adran yr Amgylchedd. Gweithiodd yr holl Arweinwyr gyda'r staff yn ei hadrannau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, yr amrywiaeth o gyfleoedd newydd sydd ar gael i staff i ddysgu Cymraeg a'r gefnogaeth ymarferol sydd ar gael ar fewnrwyd y Cyngor. Mae'r Arweinwyr iaith adrannol yn cyfarfod a'i gilydd bob deufis, ond cyn trefnu dathliadau Gŵyl Dewi daeth yr holl Arweinwyr at ei gilydd i drafod a chydgyllunio.

Yn yr un modd, mae cyfarfodydd rheolaidd wedi parhau gyda chydweithwyr Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau cynnydd yn unol â'r Safonau ac er mwyn derbyn adborth rheolaidd o ran gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Iaith. Mae'r is-adran Rheoli Pobl yn monitro'r prosesau recriwtio ac yn cefnogi rheolwyr o ran cynnal asesiadau iaith swyddi ac maent hefyd yn gyfrifol am y ddarpariaeth hyfforddiant a chefnogaeth cyflogaeth i holl staff y cyngor. Byddwn yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd yn ystod 2018-19.

Mae'r Adran Cymunedau yn parhau i arwain ar Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau ac yn sicrhau y gwneir cynnydd wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn y maes gofal a gofal cymdeithasol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r gweithgor adrannol wedi cyfarfod yn rheolaidd i drafod meysydd megis cynllunio gweithlu, comisiynu gwasanaethau a hyfforddiant staff.

Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn cyflwyno gwybodaeth bellach am waith y Cyngor fesul dosbarth o Safonau.

Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Gohebiaeth (Safonau 1 - 7), Ffôn (Safonau 8 -22), Cyfarfodydd a digwyddiadau (Safonau 24 - 36) Cyhoeddusrwydd, arddangos deunydd a llunio dogfennau a ffurflenni (Safonau 37 - 51), Gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol (Safonau 52 - 59), Peiriannau hunan wasanaeth (Safon 60), Arwyddion (Safonau 61 - 63), Gwasanaeth derbynfa (Safonau 64 - 68), Hysbysiadau swyddogol (Safonau 69 - 70), Dyfarnu grantiau a chontractau (Safonau 71 - 80), Systemau annerch (Safon 87), Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg (Safonau 81 - 82), Hunaniaeth gorfforaethol (safon 83), Cyrsiau (Safon 84 - 86)

Mae'r Cyngor wedi creu nifer o ganllawiau sy'n egluro i staff beth yw'r gofynion o ran cydymffurfio gyda'r Safonau. Mae'r canllawiau ar gael ar y fewnwyd er mwyn bod pob aelod o staff yn gallu eu gweld a'u darllen. Mae'r Arweinwyr Iaith yn llwyr ymwybodol ohonynt ac yn cyfeirio aelodau o staff o fewn eu timoedd a'u hadrannau atynt. Mae'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith hefyd yn cyfeirio at y Canllawiau er mwyn sicrhau bod staff yn cydymffurfio gyda'r Safonau.

Mae'r Canllawiau yn cynnwys:

- Defnyddio'r Gymraeg – Ar y ffôn;
- Defnyddio'r Gymraeg – Gohebu (ar bapur ac yn electroneg);
- Trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd;
- Trefnu a chynnal cyfarfodydd (sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd drwy wahoddiad);
- Ysgrifennu'n Gymraeg a'ch Cyfrifiadur;
- Arwyddion, taflenni, ffurflenni, ayb; a
- Beth y mae angen imi ei wneud os wyf yn recriwtio staff?

Mae'r Cyngor Sir wedi cysoni'r defnydd o bapurau pennawd ac yn gofyn i bob aelod o staff i ddefnyddio papur pennawd ei Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth. Mae hyn yn golygu bod neges gyson ar holl lythyron y Cyngor sy'n cael eu hanfon sef 'Mae Cyngor Sir Gâr yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Ceir erthyglau cyson yng nghylchlythyr y Cyngor a'r cylchlythyrion adrannol er mwyn atgoffa staff am y Safonau a'u cyfeirio ble gellid cael cymorth a gofyn am gyngor. Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo'i wasanaethau Cymraeg drwy'r ymgyrch 'Pa bynnag ffordd...' gan arddangos posteri ar arosfannau bysus, hysbyseb mewn papurau bro a Newyddion Sir Gâr a dangosir baner ar wefan y Cyngor (gweler Atodiad 1). Mae'r Cyngor wedi paratoi clipiau fideo o staff o wahanol adrannau'r Cyngor yn cyflwyno'i hunain ac yn cyfeirio at ble maent yn gweithio ac yn annog y cyhoedd i gysylltu â nhw yn Gymraeg. Bydd y clipiau fideo yn ymddangos ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn ystod 2018/19.

Fel rhan o ymgyrch farchnata i hyrwyddo gwasanaethau'r cyngor, defnyddiwyd y bwrdd hun-lun 'Pa bynnag ffordd' i hyrwyddo defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg. Yn arwain at y Nadolig, defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i ddangos lluniau o Elffin, y corrach bach, yn hyrwyddo gwasanaethau'r Cyngor drwy ddefnyddio'r bwrdd hun-lun 'Pa bynnag ffordd...'.

Ar ddydd Miwsig Cymru ar ddydd Gwener 9 Chwefror, lansiodd y Cyngor Sir yr ymgyrch i chwarae cerddoriaeth Gymraeg yn nerbynfeydd tair Canolfan Hamdden, sef Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman. Mae un Canolfan Hamdden yn chwarae cerddoriaeth trwy wefan Apton a'r ddwy Ganolfan Hamdden arall yn chwarae Radio Cymru. Y gobaith yw y bydd hyn yn codi statws y Gymraeg ymhlith y cyhoedd

a'r staff ac yn hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg ac annog pobl ifanc i gysylltu'r Gymraeg gyda bywyd hamdden.

Cydymffurfio â'r Safonau Lluio Polisi

(Safonau 88 – 97)

Ceir cwestiynau o ran y Gymraeg yn y templed Asesu Effaith ar Gydraddoldeb ar hyn o bryd, ac fe ddefnyddir y templed hynny wrth asesu effaith ein polisiau, prosiectau a'r broses o osod cyllideb y cyngor. Y tîm Polisi a Phartneriaeth sy'n cefnogi'r adrannau gyda'r gwaith hwn.

Fel dilyniant i'r templed gwreiddiol, mae Asesiad Effaith Integredig wedi cael ei baratoi sy'n dwyn ynghyd deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, y Gymraeg, deddf amgylchedd a chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant. Mae'r asesiad yn cynnwys cwestiynau penodol o ran y Gymraeg ac effaith unrhyw bolisi ar allu siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith a sut yr ydym ni'n hyrwyddo'r Gymraeg.

Crëwyd canllawiau ar yr asesiad integredig gydag adran benodol am y Gymraeg.

Yn ystod 2018/19, bydd y cyngor yn cyflwyno'r asesiad newydd ac yn cynnal hyfforddiant i Aelodau Etholedig a swyddogion ar yr asesiad effaith integredig newydd ac yn cynnal prosiect peilot 6 mis er mwyn derbyn adborth ar y templedi a chanllawiau newydd.

Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu

(Safonau 98 – 144)

Defnydd Mewnol

Ceir polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar fewnrwyd y Cyngor Sir a gall staff ei ddarllen er mwyn gweld sut mae'r Cyngor yn eu cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd yn y gwaith.

Yn ystod 2017, bu'r Tîm Polisi yn ddiwyd yn hyrwyddo adnoddau ar-lein sy'n cynorthwyo ein staff i wneud fwy o ddefnydd o'r Gymraeg wrth eu gwaith. Hyrwyddwyd y clipiau sain, sy'n cynorthwyo staff i fedru delio ag ymholiadau Cymraeg ar y ffôn, ac i gadeirio cyfarfodydd yn ddwyieithog, a chafwyd adborth fod y rhain yn ddefnyddiol i ddysgwyr ac i siaradwyr Cymraeg sy'n ddihyder. Bu'r templedi, sy'n gymorth i staff i ymateb i ymholiadau Cymraeg ar e-bost ac yn gymorth i gadw cofnodion dwyieithog ac i drefnu cyfarfodydd dros e-bost yn ddwyieithog, yn boblogaidd hefyd (gweler enghreifftiau yn Atodiad 2). Y gobaith yw y bydd y rhain yn annog staff i roi cynnig ar lunio e-byst dwyieithog eu hunain yn hytrach nac anfon e-bost Saesneg i'r Uned gyfieithu yn syth. Hyrwyddwyd yr adnoddau hyn mewn e-gylchlythyron i staff, ac wyneb-yn-wyneb mewn sioeau teithiol, ond erys gwaith i'w wneud i ledaenu'r wybodaeth ymhellach.

Ar ddiwrnod 'Shwmae Su'mae' ym mis Hydref 2017, anfonwyd neges e-bost at holl staff y Cyngor gan Gynghorydd Peter Hughes-Griffiths yn cyflwyno'i hunan fel yr aelod portffolio newydd â chyfrifoldeb am Hamdden, Chwaraeon a Thwristiaeth, yn ogystal â datblygu'r iaith Gymraeg. Roedd y neges yn annog staff i ymuno â chwrs dysgu Cymraeg ac yn tynnu eu sylw at yr holl adnoddau newydd ar y fewnrwyd. Fe wnaeth y Cyngor argraffu byrddau hun-lun hefyd ar gyfer rhoi lluniau ar y cyfryngau cymdeithasol o staff yn cefnogi'r ymgyrch 'Shwmae' (Atodiad 3).

Ar ddydd Gŵyl Dewi, trefnodd yr Arweinwyr iaith ddigwyddiadau yn gwahanol adeiladau'r Cyngor gan gynnwys cwis am hanes lleol, cystadlaethau o luniau gyda phobl enwog, y genhinen hiraf, a bore coffi. Fel rhan o'r digwyddiadau dangoswyd yr adnoddau ar y fewnrwyd, casglwyd enwau o staff sydd eisiau bod yn fentoriaid i ddysgwyr, a rhannwyd deunyddiau megis canllawiau'r safonau a geiriaduron ac ati. Cynhaliwyd cwis ar e-bost hefyd i bob aelod o staff â chyswllt swyddfa gyda nifer fawr yn cystadlu. I ddathlu dydd Gŵyl Dewi hefyd, gweithiwyd gyda'r adran Technoleg Gwybodaeth er mwyn bod neges ar waelod holl negeseuon e-bost a oedd yn cael eu hanfon ar ddydd Gŵyl Dewi yn dymuno 'Dydd Gŵyl Dewi Hapus ~ Happy St. David's Day'.

Sicrhawyd bod y pecynnau iaith angenrheidiol yn cael eu dosbarthu wrth fod Windows 10 yn cael ei gyflwyno i holl staff y cyngor er mwyn sicrhau bod staff yn gallu parhau i ddefnyddio gwirydd sillafu Cymraeg a.y.b. gyda'r feddalwedd ddiweddaraf. Mae'r gwaith hwn yn parhau i ddigwydd ynghyd ag annog staff i ddefnyddio'u cyfrifiaduron yn Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi llwytho fideo Cymraeg ar y fewnrwyd ar sut i ddefnyddio Skype gan obeithio bydd staff yn cymryd mantais o'i ffurf anffurfiol er mwyn cysylltu gydag aelodau eraill o staff gan ymarfer eu Cymraeg ysgrifenedig ar yr un pryd.

Cynyddu Sgiliau iaith staff

Yn dilyn cynnal awdit o sgiliau iaith staff y Cyngor, mae'r holl ddata yn cael ei gadw ar system Adnoddau Dynol ac rydym yn parhau i fonitro'r data er mwyn ei ddiweddarau ac adnabod cyfleoedd dysgu. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf o safbwynt yr awdit sgiliau iaith ar gael ar dudalen 11 o'r adroddiad hwn.

Mae safon 154 yn gofyn i'r Cyngor Sir gadw cofnod o'r holl swyddi a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn am sgiliau iaith hanfodol. Yn dilyn derbyn Strategaeth Sgiliau iaith y Cyngor, mae pob swydd yn gofyn am sgiliau iaith yn Gymraeg, ond ceir amrywiaeth o lefel 1 i lefel 5 yn y gofynion yn ddibynnol ar ddisgrifiad unigol pob swydd.

Mae Canllawiau am y Safonau eisoes yn bodoli, ond mae'r tîm polisi ar y cyd â thîm Adnoddau Dynol a thîm Dysgu a Datblygu wedi bod yn ail-ysgrifennu'r canllaw yn ymwneud â recriwtio, dysgu a datblygu gan fod newidiadau wedi bod ers ysgrifennu'r un cyntaf. Mae'r canllaw newydd yn cyfeirio at yr amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael i staff ac yn tynnu sylw penodol at y Cytundebau Dysgu sy'n ymrwymo gweithwyr newydd y Cyngor i ddysgu Cymraeg, os nad ydynt yn cyrraedd y lefel gofynnol ar y pwynt penodi. Bydd yr holl ganllawiau yn cael eu hargraffu fel llyfryn yn ystod 2018/19.

Mae'r Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu wedi gweithio ar egluro'r cyrsiau o ran sut maent yn cyfateb i lefelau iaith y Cyngor ac wedi dod o hyd i nifer o gyrsiau ychwanegol sy'n cynnig mwy o gyfleoedd i staff i ddysgu Cymraeg.

Mae'r gwaith o hyrwyddo'r Cwrs Croeso Cymraeg Gwaith sy'n para 10 awr wedi talu ffordd gan fod dros 170 wedi cofrestru ar y cwrs newydd hwn. Bwriad y cwrs yw cyflwyno Cymraeg Gwaith i staff a'u helpu i gyrraedd lefel 1.

Mynychodd 7 aelod o staff y cwrs preswyl i ddysgwyr yn Nant Gwrtheyrn yng Ngogledd Cymru. Cafodd y saith gyfle unigryw i ymarfer pob elfen o'r iaith Gymraeg, siarad, darllen, gwrandao ac ysgrifennu, ond rhoddwyd pwyslais arbennig ar ddatblygu hyder i siarad yr iaith.

Cynhaliwyd 'Digwyddiad Dathlu'r Gymraeg' yn Y Ffwrnes, Llanelli ar ddiwrnod Santes Dwynwen i ddathlu llwyddiant y dysgwyr, yr arweinwyr iaith a'r mentoriaid ac i longyfarch y staff sy'n dysgu Cymraeg, eu hannog i barhau a chynnig cefnogaeth i bawb oedd yn bresennol. Cynhaliwyd nifer o

weithgareddau ynghyd ag ysgrifennu limrigau a oedd o dan ofal yr aelod portffolio â chyfrifoldeb am y Gymraeg sef y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths a'r siaradwraig gwadd oedd Efa Gruffudd-Jones o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.

Anfonodd y tîm Dysgu a Datblygu arolwg i staff yn gofyn am eu barn am fentoriaid a chafwyd ymateb cadarnhaol iawn o ran dysgwyr yn gofyn am fentor i'w cynorthwyo gyda dysgu Cymraeg a hefyd o ran siaradwyr Cymraeg yn awyddus i fod yn fentor er mwyn ymarfer gyda'r dysgwyr. Mae'r swyddog newydd wedi teilwra cwrs newydd ar gyfer yr holl fentoriaid ond erys tipyn o waith i'w wneud o ran paru'r dysgwyr a'r mentoriaid.

Ceir crynodeb o'r holl hyfforddiant a ddarparwyd i staff y Cyngor yn ystod 2017-18 ar dudalen 10.

Cydymffurfio â'r Safonau Hybu

(Safon 145 – 146)

Strategaeth Hybu Cyngor Sir Gâr 2017-18

Yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth Hybu yn ystod 2016-17, lluniwyd Cynllun Gweithredu i roi'r cyfan ar waith. I'r perwyl hwn cafwyd cyfarfodydd rhwng yr Aelod Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r iaith Gymraeg a'r adrannau perthnasol o fewn y Cyngor i gytuno ar gamau gweithredu. Yn ogystal, nodwyd camau gweithredu penodol ar gyfer y Fforwm Sirol, yn ymwneud â hyrwyddo a marchnata'r Gymraeg a gweithio yn yr ardaloedd blaenoriaeth yn benodol. Derbyniwyd y cyfan gan y Panel Ymgynghorol ond erys gwaith i'w wneud i osod amserlen i'r pwyntiau gweithredu oll.

Ochr yn ochr â llunio'r Cynllun Gweithredu fel dogfen, gweithredwyd ymhellach ar y camau a adnabuwyd wrth lunio'r Strategaeth. Yn dilyn y gwaith mapio o'r ardaloedd blaenoriaeth a nodwyd yn y Strategaeth, llwyddwyd mewn cais am gyllid LEADER (Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020) i gyflogi swyddogion i weithredu ar yr anghenion a adnabuwyd. Penodwyd 1 swyddog llawn amser i bob Menter Iaith gyda'r gwaith o gydlyn ymdrechion holl bartneriaid y Fforwm, ac i greu cynllun gweithredu a fydd yn ymateb i heriau ieithyddol pob ardal.

Gwnaed gwaith ar ddsbarthu taflen 'Bod yn Ddwyieithog' drwy aelodau'r Fforwm a thrwy brosiect 'Dechrau'n Deg' a bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2018-19. Gwnaed gwaith pellach ar fesur ymwybyddiaeth bobl y sir o'r Gymraeg drwy lunio a dechrau gweinyddu holiadur (gweler Atodiad 4) i ganfod data a fydd yn rhoi darlun i ni o statws y Gymraeg yn y sir. Y gobaith yw y bydd yr holiadur (o ganfod gwaelodlin gynhwysfawr) yn fodd i ni fesur llwyddiant y Strategaeth Hybu yn y pen draw hefyd wrth i ni ei ail-weinyddu wedi 5 mlynedd o weithrediad y prosiect. Erys tipyn o waith i'w gwneud i ganfod gwaelodlin ystyrlon yn ystod y flwyddyn nesaf. Cychwynwyd hefyd ar y gwaith o greu pecyn gwybodaeth i bobl sy'n symud i'r sir. Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, sydd wedi peilota Pecyn i fewnfudwyr ar gyfer Ynys Môn, mae'r Fforwm Sirol wedi cytuno ar fformat ar gyfer Pecyn tebyg ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Mae'r Pecyn yn cynnwys gwybodaeth ystadegol am y Gymraeg, gwybodaeth am ble y gall unigolyn fynd i ddysgu Cymraeg, i gael addysg Gymraeg ac i ymuno yn y gymuned Gymraeg, yn ogystal â gwybodaeth am adnoddau electroneg ac ar y cyfryngau i ddefnyddio Cymraeg o ddydd i ddydd. Mae'r llyfryn yn cael ei ddylunio i gynnwys delweddau o Sir Gâr ac fe fydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2018-19. Bydd trafodaeth i'w chael wedyn ar y ffyrdd orau o'i ddsbarthu ar bapur ac yn electroneg a gobeithio y gallwn ddysgu ymhellach o brofiadau Ynys Môn ar y mater hwn.

Cynhaliodd y Cyngor Noson Gymraeg yn y gweithle ar y cyd â'r Atom, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llywodraeth Cymru a busnesau lleol er mwyn trafod pwysigrwydd dwyieithrwydd yn y gweithle. Bu panel o fusnesau lleol yn trafod ffyrdd ymarferol o weithredu'n ddwyieithog ynghyd a'r heriau ymarferol iddynt o wneud hyn. Cafwyd ymateb da gan fusnesau'r dref, gyda dros 35 o bobl yn cymryd rhan yn y noson.

Cwynion a dderbyniwyd 2017/18

Isod ceir rhestr o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2017/18 ynghyd â chrynodeb o'r gweithredu yn dilyn eu derbyn. Derbyniwyd 12 cwyn yn uniongyrchol i'r Cyngor a chynhaliodd y Comisiynydd un ymchwiliad i wasanaeth y Cyngor yn dilyn derbyn cwyn yn uniongyrchol.

Ymdriniwyd â'r cwynion yn unol â Gweithdrefn Gwynion y cyngor.

	Cwyn	Ymateb a gweithredu
	Yn uniongyrchol i'r Cyngor	
1.	Cwyn ynghylch oedi wrth gyfathrebu gyda'r swyddfa Gofrestru	<ul style="list-style-type: none"> Ymddiheurwyd am yr oedi wrth ymateb i'r cais ac eglurwyd bod oedi wedi bod oherwydd y gwaith o chwilio am dystysgrifau drwy fynegai llawysgrifen yn hytrach na rhai cyfrifiadurol.
2.	Cwyn nad oedd cerddoriaeth ddwyieithog yn cael ei chwarae mewn man cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> Ymddiheurwyd am y mater a nodwyd bod gwaith ar y gweill i chwarae cerddoriaeth Cymraeg drwy ffrydio cerddoriaeth ein hunain. O ganlyniad, bu ymgyrch ar 'Ddydd Miwsig Cymru' i chwarae cerddoriaeth Gymraeg yn ein canolfannau hamdden. Rydym yn parhau i weithio er mwyn gwella'r ddarpariaeth ac yn anelu at weithio gyda safleoedd eraill yn ystod 2018/19.
3.	Tair cwyn am arwyddion newydd a oedd wedi cael eu gosod ar briffordd y tu allan i Lanymddyfri	<ul style="list-style-type: none"> Gweithiodd y Cyngor gydag Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) a Llywodraeth Cymru er mwyn tynnu'r arwyddion gwallus a gosod arwyddion newydd yn eu lle. Roedd cyfrifoldeb comisiynu'r arwyddion ar Lywodraeth Cymru, cyfrifoldeb am ddylunio'r arwyddion ar SWTRA a chyfrifoldeb am osod yr arwyddion ar y Cyngor Sir.
4.	Cwyn ynglŷn â diffyg darpariaeth o hyfforddiant Cymraeg/dwyieithog ar God Ymddygiad Cynghorwyr Cymuned Newydd ynghyd â ffurflenni adborth uniaith Saesneg.	<ul style="list-style-type: none"> Nodwyd bod y swyddog perthnasol yn ymwybodol bod camgymeriad wedi cael ei wneud. Darparwyd copi Cymraeg o'r ffurflen adborth ar e-bost ac eglurwyd bod y swyddog arall sydd fel arfer yn mynychu'r cwrs yn gallu siarad Cymraeg ond nad oedd yn gallu mynychu'r hyfforddiant y tro hwn. Bydd yr adran yn sicrhau bod dau swyddog yn mynychu yn y dyfodol gydag o leiaf un yn gallu cyflwyno a siarad Cymraeg a bod unrhyw ddeunydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
5.	Cwyn bod angen Cymraeg llafar ar gyfer ymgeisio am swyddi.	<ul style="list-style-type: none"> Eglurwyd bod y Strategaeth Sgiliau Iaith wedi cael ei chymeradwyo a bod ymrwymiad o ran cynllunio gweithlu i osod bob swydd a hysbyseb ar leiafswm o lefel 1, yn ddibynnol ar ddisgwyliadau'r swydd

	Cwyn	Ymateb a gweithredu
		benodol. Eglurwyd bod y Cyngor yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant i gyrraedd y lefelau disgwyliedig.
6.	Cwyn am Wyl y Synhwyrdd yn Llandeilo gan fod y Cyngor yn ariannu rhywfaint o'r wyl.	<ul style="list-style-type: none"> Nodwyd bod amodau o ran dwyieithrwydd yn cael eu gosod cyn rhyddhau'r grant. Bydd yr adran yn ystyried ffyrdd o weithio gyda'r wyl yn y dyfodol.
7.	Cwyn bod yr achwynydd wedi derbyn e-bost Cymraeg yn unig.	<ul style="list-style-type: none"> Anfonwyd e-bost Saesneg a Chymraeg i'r achwynydd a rhoddwyd cyngor ar ddewis iaith cylchlythyron e-bost yn y dyfodol.
8.	Cwyn am gamgymeriad ar ffurflen dreth Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> Diolchwyd i'r achwynydd am dynnu sylw at y mater gan nodi byddai'r Cyngor yn cywiro cyn gynted â phosib.
9.	Cwyn ynglŷn â llythyr uniaith Saesneg a anfonwyd o'r tîm Safonau Masnach	<ul style="list-style-type: none"> Nodwyd bod angen i'r tîm anfon llythyron at fusnesau yn ddwyieithog ac ymddiheurwyd am y camgymeriad.
10.	Derbyniwyd cwyn bod swyddog tai wedi siarad ag aelod o'r cyhoedd o flaen aelod arall o'r cyhoedd nad oedd yn deall Cymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> Eglurwyd i'r achwynydd bod hawl gan yr aelod o'r cyhoedd i dderbyn gwasanaeth oddi wrth y swyddog tai yn Gymraeg.
Trwy weithdrefnau'r Comisiynydd Iaith		
11.	Ymchwiliwyd gan y Comisiynydd i honiad o fethiant i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ymwneud â diffyg darpariaeth o fersiwn Cymraeg o lythyr ynghylch 'Hysbysiad gwrthod her' yn dilyn derbyn dirwy parcio.	<ul style="list-style-type: none"> Ar ôl derbyn yr holl dystiolaeth oddi wrth y Cyngor, penderfynodd y Comisiynydd bod y Cyngor Sir heb fethu â chydymffurfio â'r safonau gan fod y Cyngor wedi ymateb yn Saesneg i lythyr Saesneg oddi wrth yr achwynydd.

Hyfforddiant a ddarparwyd

	2017-18
Croeso Cymraeg Gwaith (e-ddysgu)	66
Croeso Cymraeg Gwaith (Wyneb yn Wyneb)	10
Croeso Cymraeg Gwaith (Is-adran Dai)	6
Cymraeg Gwaith (Is-adran Dai)	3
Mynediad	27
Cwrs Dal i fyny (Mynediad)	8
Sylfaen	20
Canolradd	6
Uwch	1
Gwella eich Cymraeg: Llafar A	12
Gwella eich Cymraeg: Llafar B	4
Gwella eich Cymraeg: Ysgrifennu a Siarad	4
Gwella eich Cymraeg: Sgiliau Ysgrifennu	10
Cwrs Cicio'r Cof	7
Cwrs Sgiliau Mentora	31
Hyfforddiant Arweinwyr Iaith	31
Ymwybyddiaeth Iaith i Reolwyr	48
CYFANSWM Y DYSGWYR	294

Noder bod rhai o'r cyrsiau yn rhedeg fesul blwyddyn academiaidd, nid blwyddyn calendr a byddant yn cael eu hadrodd yn ystod 2018-19.

Adrodd ar Safonau 128 a 152

Mae Safon 128 yn gofyn i'r cyngor i ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg - (a) recriwtio a chyf-weld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.

Mae'r cynnig i ddilyn unrhyw ddysgu yn y Gymraeg ar ein ffurflenni cais Dysgu a Datblygu. Rydym yn y broses o adolygu pob un o'r modiwlau e-ddysgu sy'n cefnogi'r meysydd a enwir yn y Safonau a bydd y cyfan wedi ei ddiweddarau erbyn Ebrill 2019.

Mae Safon 152 yn rhoi cyfrifoldeb ar y cyngor i gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o - (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a (b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.

Yn ystod 2017-18, cofrestrwyd yn unol a Safon 152 (a), bod 7926 o fynychwyr i gyrsiau lle cynigiwyd darpariaeth yn y Gymraeg. O'r 7926 a fynychodd y cyrsiau lle cynigwyd y dysgu yn y Gymraeg, dilynodd 1280 y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu 16% (Safon 152 (b)).

Awdit Sgiliau Iaith

Mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Sgiliau Iaith ym mis Ionawr 2016 gyda'r amseru'n berffaith o ran gorfod cydymffurfio â'r Safonau ar 30 Mawrth 2016. Un o gamau gweithredu'r Strategaeth oedd diweddarau'r awdit o sgiliau iaith y gweithlu ac roedd yn cyd-fynd gyda Safon 127 sy'n rhoi cyfrifoldeb

ar y Cyngor i 'asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion'. Wrth i'r staff dderbyn hyfforddiant a symud ar hyd y continwmm, mae'r cofnod yn cael ei ddiweddarau ac wrth benodi aelodau newydd o staff mae'r cofnod yn cael ei roi ar feddalwedd Adnoddau Dynol.

Dyma'r data a oedd ar y system ar ddiwedd mis Mawrth 2017 -

	Nifer	Canran		Nifer	Canran
Dim Sgiliau Llafar	840	15%	Dim Sgiliau Ysgrifennu	1624	29%
Lefel 1 Llafar	1474	27%	Lefel 1 Ysgrifennu	1304	24%
Lefel 2 Llafar	929	17%	Lefel 2 Ysgrifennu	803	15%
Lefel 3 Llafar	682	12%	Lefel 3 Ysgrifennu	653	12%
Lefel 4 Llafar	579	11%	Lefel 4 Ysgrifennu	449	8%
Lefel 5 Llafar	1009	18%	Lefel 5 Ysgrifennu	671	12%

Dyma'r data a oedd ar y system ar ddiwedd mis Mawrth 2018 -

	Nifer	Canran		Nifer	Canran
Dim Sgiliau Llafar	636	11%	Dim Sgiliau Ysgrifennu	1504	27%
Lefel 1 Llafar	1712	30%	Lefel 1 Ysgrifennu	1442	25%
Lefel 2 Llafar	938	16%	Lefel 2 Ysgrifennu	844	15%
Lefel 3 Llafar	726	13%	Lefel 3 Ysgrifennu	667	12%
Lefel 4 Llafar	604	11%	Lefel 4 Ysgrifennu	477	8%
Lefel 5 Llafar	1083	19%	Lefel 5 Ysgrifennu	739	13%

- Gwnaethpwyd yr arolwg staff mewn dwy ran. Cynhaliwyd arolwg meta-cydymffurfiaeth ar gyfrifiaduron y Cyngor ar gyfer yr holl staff swyddfa ac ar gyfer y staff sy'n gweithio ar draws y sir heb gyswllt swyddfa, defnyddiwyd meddalwedd SNAP a theclynnau symudol a fersiwn papur.
- Mae'r holl ddata yn seiliedig ar hunanasesiad y staff o lefelau eu sgiliau iaith. Wrth gwblhau'r awdit gofynnwyd i staff nodi unrhyw gefnogaeth y byddent yn dymuno ei chael i wella eu sgiliau iaith.
- Hyd yn hyn, mae 86% o'r staff wedi ymateb ac mae'r data wedi cael ei lwytho i'r System Gyflogau/Adnoddau Dynol. Mae cyrraedd y staff sydd heb gyswllt swyddfa reolaidd na mynediad i gyfrifiadur yn her barhaus i ni fel cyflogwr. Rydym yn parhau mewn cyswllt rheolaidd gyda chydlynwyr adrannol ac mae ymdrechion yn parhau i gyflawni ymateb llawn o bob maes gwasanaeth. Unwaith y bydd y data yn cael ei lwytho, byddwn yn gallu rhedeg adroddiadau yn proffilio sgiliau iaith y gweithlu er mwyn cynorthwyo gydag unrhyw ddadansoddiad bwlch sgiliau.

Atodiad 1

Ymgyrch Hyrwyddo Gwasanaeth Cymraeg y Cyngor i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr

Pa bynnag ffordd...



...mae 'na groeso i chi **gysylltu** â Chyngor Sir Gâr yn **Gymraeg**



Y CHYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru/trafodiath
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales/trafodiath

Learning the language?



...you are welcome to **contact** us in **Welsh**



Y CHYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru/trafodiath
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales/trafodiath

Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor ar arosfannau bysys



Atodiad 2

Adnoddau'r fewnwyd i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Safonau Iaith Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council Welsh Language Standards

Templed e-bost ateb ymholiad
Template for an e-mail reply to an enquiry

Annwyl	Dear
Diolch i chi am eich ymholiad.	Thank you for your enquiry.
Ymddiheuriadau am yr oedi wrth ymateb.	Apologies for the delay in our response.
Byddaf yn trosglwyddo eich cais i'r adran berthnasol.	I will transfer your enquiry to the relevant department.
Byddaf yn trosglwyddo eich cais i'r swyddog perthnasol.	I will transfer your enquiry to the relevant officer.

Arwyddion, tafenni, ffurflenni ayb.

Recriwtio

Clipiau sain

Cwestiynau Cyffredin

Sefydlu Staff


Strwythur sefydliadol

- Democratiaeth >
- Adnoddau Dynol >
- Dysgu a Datblygu >
- Iechyd Galwedigaethol >
- Iechyd a Diogelwch >
- Cymorth TG >
- Rheoli Prosiectau >
- Rheoli Perfformiad >
- Strategaethau a Chynlluniau >

Adran X	X Department	Chwarae
X yn siarad	(Your name) speaking	Chwarae
Sut galla i eich helpu?	How may I help you?	Chwarae
Gyda phwy hoffech chi siarad?	With whom would you like to speak?	Chwarae
Beth yw pwrpas yr alwad?	What is the purpose of the message?	Chwarae
Ga i gymryd neges?	May I take a message?	Chwarae
Rwy'n trosglwyddo'r alwad	I am transferring the call	Chwarae
Dydw i ddim yn siarad Cymraeg yn rhugl	I don't speak Welsh fluently	Chwarae
Rhodda i chi ddiwddo i rywun sy'n siarad	I will put you through to someone who speaks	Chwarae

Atodiad 3

Deunydd hyrwyddo Diwrnod 'Shwmae Su'mae'





Holiadur Ymwybyddiaeth am Y Gymraeg yn Sir Gâr

Gofynnir y cwestiynau demograffig canlynol yn yr arolwg fel y gallwn cael barn pobl â nodweddion gwahanol, megis y rheiny a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Nid oes modd olrhain eich atebion yn ôl i chi fel unigolyn.

1 Beth yw eich grŵp oedran?

- Dan 16
- 16-24
- 25-34
- 35-44
- 45-54

- 55-64
- 65-74
- 75-84
- 85+
- Gwell gennyf beidio â dweud

2 Beth yw eich rhyw?

Benyw

Gwryw

Gwell gennyf beidio â dweud

3 Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod gan berson anabledd at ddibenion y Ddeddf hon os oes ganddo/ganddi, neu wedi bod 'nam corfforol neu feddyliol sydd wedi cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu/ei gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd'.

Diffinnir tymor hir i olygu wedi para 12 mis neu sy'n debygol o barhau am o leiaf 12 mis

Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

Ydw

Nac Ydw

Gwell gennyf beidio â dweud

4 Beth yw eich dewis iaith?

Cymraeg

Saesneg

Arall

Nodwch

Mae'r holiadur hwn yn ceisio cael gwybodaeth am ymwybyddiaeth trigolion Sir Gâr o ddwyieithrwydd ac o ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg, er mwyn ein cynorthwyo i gynllunio i'r dyfodol

Amdanoch chi

5 Plis nodwch eich côd post

6 Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg?

- Ydw Nac ydw Ychydig Dysgu

7 Oes gennych chi blant mewn addysg? (*Os mai Na' yw'r ateb, ewch i gwestiwn 10*)

- Oes Nac Oes

8 Pa fath o addysg mae eich plant yn derbyn?

- Meithrin Cynradd Uwchradd Uwch neu bellach

9 Oes gennych chi blant mewn addysg *cyfrwng Cymraeg*?

- Oes Nac oes

Dwyieithrwydd

10 Ydy bod yn ddwyieithog yn fantais?

- Ydy Nac ydy Ddim yn gwybod

10a Plis rhoewch fanylion pam ydych chi'n meddwl bod dwyieithrwydd o fantais neu beidio.

11 Ydy e'n bwysig fod y Gymraeg yn cael ei datblygu er mwyn ei chadw'n fyw?

- Ydy Nac Ydy Ddim yn gwybod

12 Ydych chi'n ymwybodol o weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

- Ydw Nac ydw

13 Oes gennych chi unrhyw syniadau am sut i gyrraedd y nod hwn?

Addysg

14 Ydych chi'n gwybod ble i ddod o hyd i'r canlynol:

	Ydw	Nac ydw
Gofal plant bach yn y Gymraeg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Addysg Gymraeg i'ch plant	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

15 Yn eich barn chi, a fydd plant yn dod yn ddwyieithog pa bynnag ysgol fyddant yn mynychu yn Sir Gâr?

- Byddant
 Na fyddant
 Ddim yn gwybod

Plis rhoi rhwydd resymau am eich barn:

Y Gymraeg

16 Pa mor aml ydy chi'n clywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio?

- Wastad
 Weithiau
 Byth
 Yn aml
 Braidd byth

17 Ble a pha mor aml fyddwch chi'n clywed y Gymraeg? *(Plis ticiwch bob un sy'n briodol).*

	Wastad	Yn aml	Weithiau	Braidd byth	Byth
Gartref neu gyda pherthnasau	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Yn y gymuned	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Yn y gwalth	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Yn yr ysgol	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mewn siopau	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mewn busnesau lleol	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ar y cyfryngau	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Wrth gymryd rhan mewn chwaraeon	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd hamdden arall	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mewn lleoliad lechyd (meddygfa, delntyddfa, ysbyty)	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Unrhyw le arall (plis nodwch):	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Plis dywedwch wrthym lle arall rydych yn clywed y Gymraeg:

18 Oes cangen o'r isod yn eich ardal chi?

	Oes	Nac Oes	Ddim yn gwybod
Urdd	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Cylch Meithrin	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Cylch Tl a Fl	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Clwb Ffermwyr Ifanc	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Cangen Merched y Wawr neu Glwb GWAWR	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Menter Iaith	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg arall	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Gwersi Cymraeg I Oedolton	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

19 Pa mor aml ydych yn defnyddio'r cyfryngau canlynol yn y Gymraeg? (*Plis ticiwch bob un sy'n briodol*).

	Wastad	Yn aml	Welthiau	Braidd byth	Byth
Teledu	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Radio	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Y We	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Os ydych wedi dewis **'Byth'** am unrhyw un o'r uchod, plis esboniwch pam:

20 Enwch un cwmni/busnes sy'n defnyddio'r Gymraeg yn weledol.

21 Enwch *dri* sefydliad cyhoeddus ble rydych chi wedi derbyn gwasanaeth Cymraeg.

1.

2.

3.

22 Enwch *dri* sefydliad cyhoeddus ble nad oedd cyfle i dderbyn gwasanaeth Cymraeg.

1.

2.

3.

- 23 Os hoffech fwy o wybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg yn eich ardal, rhowch eich cyfeiriad ebost isod. Bydd eich cyfeiriad ebost yn cael ei rannu gyda'r Fenter Iaith leol a fydd yn cysylltu gyda chi gyda gwybodaeth berthnasol.

Diolch am gwblhau'r holiadur